# CYNLLUN MARCIO TAG SAFON UWCH

**HAF 2024**

**SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 3**
**1570N30-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Ltd.

## TAG SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

### UNED 3: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL AR DDATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC

### CYNLLUN MARCIO HAF 2024

**Canllawiau i arholwyr**

**Marcio cadarnhaol**

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae *cynnwys 'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.



© WJEC CBAC Ltd.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi rhoi marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft.  Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.



© WJEC CBAC Ltd.

**Adran A**

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | *Darllenwch yr astudiaeth achos am Aisha ac atebwch y cwestiynau isod.* | | | | | |
| | (a) | *Un maes allweddol o ddatblygiad corfforol Aisha yw'r glasoed. Amlinellwch* ***dri*** *newid corfforol sy'n digwydd i ferched yn ystod y glasoed.* | 6<br>[3X2] | | | 6 |
| | | Rhowch **hyd at 2 farc** am bob newid corfforol cywir a all ddigwydd i ferched yn ystod y glasoed.<br><br>**Rhowch 1 marc** am amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau corfforol a all ddigwydd i ferched yn ystod y glasoed.<br><br>**Rhowch 2 farc** am amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r newidiadau corfforol a all ddigwydd i ferched yn ystod y glasoed.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw dri o'r canlynol:<br>• siâp y corff – bydd y cluniau yn lledu a bydd y corff yn dod yn fwy siapus<br>• taldra – tyfu'n dalach<br>• gallant ddatblygu acne gan y gall y newidiadau hormonaidd sy'n digwydd yn ystod y glasoed achosi acne mewn pobl ifanc yn eu harddegau<br>• bronnau yn tyfu ac yn teimlo'n dyner<br>• twf gwallt o amgylch yr ardal biwbig ac o dan y ceseiliau, a bydd y gwallt ar y coesau a'r breichiau yn tywyllu<br>• byddant yn dechrau cael mislif ac o bosibl yn profi poen mislifol a newidiadau hormonaidd o ran eu hwyliau<br>• newidiadau o ran patrymau cysgu ac egni<br>• mae'r glasoed yn gyfnod o dwf cyflym, ac ar ddiwedd y cyfnod, bydd y corff wedi cyrraedd aeddfedrwydd atgenhedlu<br>• mae systemau eraill y corff yn aeddfedu yn ystod y cyfnod hwn hefyd (e.e. yn ystod y glasoed, bydd yr ymennydd yn datblygu'n gyflym)<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch beth yw prif nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn 12 oed, fel Aisha.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Emosiynol:<br>• dod yn feirniadol ac yn fyfyriol o berfformiad a chyfranogiad personol<br>• meithrin annibyniaeth a hunanwerth cynyddol<br>• arddangos emosiynau, weithiau rhwystredigaeth a dicter<br>• mynd yn swil ac yn dawedog o bosibl<br>• emosiynau sy'n newid yn gyflymach<br>• disgwyliadau uchel o'ch hunan a diffyg hyder<br>• hwyliau drwg yn digwydd yn amlach<br>• llai o hoffter tuag at rieni; gallant weithiau ymddangos yn swrth ac yn ddiamynedd<br>• teimlo straen o ganlyniad i waith ysgol mwy heriol<br>• teimlo tristwch neu iselder gan arwain at raddau gwael yn yr ysgol<br><br>Cymdeithasol:<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a gallu siarad drostyn nhw eu hunain<br>• meithrin cyfeillgarwch parhaus<br>• meithrin annibyniaeth a hunanwerth cynyddol<br>• datblygu eu safbwyntiau personol a all fod yn wahanol i safbwyntiau eu rhieni a/neu eu cyfoedion<br>• dangos mwy o ddiddordeb mewn grwpiau cyfoedion, a chael eu dylanwadu mwy ganddynt<br>• eisiau cael eu derbyn gan gyfoedion e.e. poeni am ddelwedd y corff, ymddangosiad a dillad<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn 12 oed<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• wybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o brif nodweddion datblygiad emosiynol a/neu gymdeithasol plentyn 12 oed<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o gysyniadau perthnasol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rai o brif nodweddion datblygiad emosiynol a/neu gymdeithasol plentyn 12 oed<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |


© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Mae'r athro dosbarth yn atgyfeirio Aisha at gwnselydd yr ysgol.*<br>*Esboniwch beth yw manteision posibl cwnsela o ran cefnogi Aisha i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae cwnsela mewn ysgolion yn cynnig y manteision posibl canlynol i Aisha wrth ddatblygu ymddygiad cadarnhaol:<br>• mae'r cwnsela yn seiliedig ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda'r plant yn siarad am eu problemau ac yn datblygu atebion gyda chymorth y cwnselydd, yn hytrach na dulliau a arweinir gan therapydd, fel CBT/cynorthwyydd medrus Egan<br>• mae cwnsela i blant yn canolbwyntio ar ddarparu amgylchedd diogel a chyfrinachol lle na chânt eu barnu<br>• cyfleoedd i Aisha drafod materion mewn amgylchedd diogel<br>• helpu Aisha i wella ei gallu i gyfathrebu ac i feithrin perthnasoedd â'i chyfoedion<br>• eiriolaeth lle yr amheuir achosion o esgeulustod neu gam-drin<br>• gwelliannau o ran sylw a chyflawniadau academaidd<br>• llai o ddicter a phroblemau ymddygiadol<br>• gwell cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni.<br>• mae'r cwnselwyr yn helpu i ddatblygu sgiliau ymdopi i Aisha sydd o bosibl yn profi symptomau gorbryder<br>• gall ofyn am gymorth gan gwnselydd pan fydd ei hamgylchedd yn ei llethu<br>• mae'n cynnig amgylchedd diogel gan hefyd gynnig yr adnoddau iddi newid ei meddyliau, ei theimladau a'i hymddygiad.<br>• meithrin hunan-barch<br>• helpu i wella sgiliau cyfathrebu<br>• ysgogi datblygiad iach, normal<br>• gwella deallusrwydd emosiynol<br>• mae'r technegau a'r ymarferion yn cynnig ffyrdd sy'n briodol i Aisha ddeall ei hun yn y byd<br>• cymorth emosiynol a chymorth i gyflawni nodau yn ystod y sesiynau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o fanteision posibl cwnsela<br>• dealltwriaeth hyderus o sut y gallai cwnsela gefnogi Aisha i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o fanteision posibl cwnsela<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut y gallai cwnsela gefnogi Aisha i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o fanteision posibl cwnsela<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut y gallai cwnsela gefnogi plant i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | *Er mwyn cefnogi datblygiad ac ymddygiad plant, mae'n bwysig bod ymarferwyr (practitioners) yn deall beth sy'n achosi ymddygiad heriol mewn plant a'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plentyn.* | | | | | |
| | (a) | *Aseswch sut byddai damcaniaeth Erikson am gyfnodau datblygiad seicogymdeithasol yn gallu esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Damcaniaeth Erikson o gyfnodau datblygiad seicogymdeithasol:<br>• credodd Erikson fod personoliaeth yn datblygu mewn trefn a bennwyd ymlaen llaw drwy wyth cyfnod datblygiad seicogymdeithasol o fabandod hyd at oedolaeth<br>• yn ystod pob cam, mae'r person yn profi argyfwng seicogymdeithasol a allai arwain at ganlyniad cadarnhaol neu negyddol o ran datblygu personoliaeth<br>• mae cwblhau pob cyfnod yn llwyddiannus yn arwain at bersonoliaeth iach ac at feithrin rhinweddau sylfaenol<br>• mae methu â'i gwblhau'n llwyddiannus yn lleihau'r gallu i gwblhau cyfnodau pellach - gan arwain at bersonoliaeth lai iach ac ymdeimlad llai iach o'r hunan. Gellir datrys hyn yn llwyddiannus, yn ddiweddarach<br><br>Sut y gallai damcaniaeth Erikson esbonio ymddygiad Aisha:<br>• yn 12 oed, dylai Aisha fod yn cwblhau'r cyfnod Diwydiant yn erbyn Israddoldeb; Pedwerydd argyfwng seicogymdeithasol Erikson, sy'n cynnwys diwydiant (cymhwysedd) yn erbyn Israddoldeb sy'n digwydd yn ystod plentyndod rhwng 5 a 12 oed<br>• yn ystod y cyfnod hwn mae plant yn dysgu sut i ddarllen a dod yn fwy annibynnol. Mae athrawon yn dechrau cymryd rhan bwysig ym mywyd y plentyn wrth iddynt addysgu sgiliau penodol i'r plentyn. Bydd Aisha yn teimlo'n llai cymwys wrth iddi ei chael hi'n anodd meithrin perthynas gadarnhaol ag athrawon<br>• Bydd grŵp cyfoedion Aisha yn dod yn fwy arwyddocaol ac yn ddylanwad pwysig ar ei hunan-barch. Gallai ei diffyg ffrindiau a dadleuon â chyfoedion niweidio ei hyder a'i hunan-barch | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • os bydd plant yn cael eu hannog ac yn cael canmoliaeth am ddangos blaengaredd, byddant yn dechrau teimlo'n gynhyrchiol (cymwys) ac yn hyderus yn eu gallu i gyflawni nodau. mae'n bosibl na fydd Aisha yn teimlo bod unrhyw un yn ei hannog, a bod yr athrawon a'i chyfrifoldebau gartref yn cyfyngu arni, felly mae'n bosibl y bydd yn teimlo'n israddol, gan amau ei galluoedd ei hun a methu â chyrraedd ei photensial<br>• yn 12 oed, mae Aisha yn symud i bumed cyfnod damcaniaeth Erik Erikson o ddatblygiad seicogymdeithasol – hunaniaeth yn erbyn dryswch rhwng rolau, y glasoed, o tua 12-18 oed<br>• bydd Aisha yn chwilio am ymdeimlad o hunaniaeth bersonol, drwy archwilio gwerthoedd, credoau a nodau personol. Y cyfnod pontio o blentyndod i oedolaeth sydd bwysicaf.<br>• Mae plant yn dod yn fwy annibynnol, ac yn dechrau edrych tuag at y dyfodol o ran gyrfa, perthnasoedd, teuluoedd, tai ac eisiau perthyn i gymdeithas a bod yn rhan ohoni<br>• mae'n bosibl y bydd Aisha yn teimlo'r gwahaniaeth o ran ei chefndir diwylliannol – mae amgylchiadau ei theulu a sefyllfa wael o ran tai a statws economaidd yn gwneud iddi deimlo'n ynysig ymhlith ei chyfoedion ac efallai y bydd yn ei chael hi'n anodd teimlo ei bod yn perthyn<br>• yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i blentyn ddysgu'r rolau y bydd yn eu cyflawni fel oedolyn. Yn ystod y cyfnod hwn yn y glasoed bydd yr unigolyn yn ailedrych ar ei hunaniaeth ac yn ceisio darganfod pwy yn union ydyw. Gall methu â meithrin ymdeimlad o hunaniaeth o fewn cymdeithas arwain at ddryswch rhwng rolau<br>• gall rhoi pwysau ar rywun i uniaethu â hunaniaeth benodol arwain at wrthryfel drwy feithrin hunaniaeth negyddol ac, yn ogystal â hyn, deimladau o anhapusrwydd<br>• efallai y bydd Aisha yn drysu rhwng ei chyfrifoldebau dros ei mam a'i brodyr a'i chwiorydd a'r ffaith ei bod yn cael ei thrin fel plentyn yn yr ysgol a bod athrawon yn dweud y drefn wrthi am beidio â chwblhau ei gwaith cartref. Gall hyn achosi iddi ymddwyn mewn ffordd annymunol a'i chael hi'n anodd meithrin perthnasoedd cadarnhaol gan ei bod wedi'i drysu o ran ei hunaniaeth<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Asesiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barnau craff a gwybodus am sut y gallai damcaniaeth Erikson o ddatblygiad seicogymdeithasol esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â'r ddamcaniaeth seicogymdeithasol |
| **3** | **5-6 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am sut y gallai damcaniaeth Erikson o ddatblygiad seicogymdeithasol esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin â'r ddamcaniaeth seicogymdeithasol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am sut y gallai damcaniaeth Erikson o ddatblygiad seicogymdeithasol esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha<br>• ymdrech syml i ymdrin â'r cysyniad o ddatblygiad seicogymdeithasol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Asesiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o farnau am sut y gallai damcaniaeth Erikson o ddatblygiad seicogymdeithasol esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha/plant 12 oed<br>• ymdrech prin i ymdrin â'r cysyniad o ddatblygiad seicogymdeithasol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |


© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch y ffactorau cymdeithasegol sy'n effeithio ar Aisha, a dadansoddwch effaith bosibl y ffactorau hyn ar ei datblygiad cyfannol.* | 6 | | 8 | 14 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Y ffactorau cymdeithasegol sy'n effeithio ar Aisha:<br>• teulu: cyfrifoldebau gofalu dros ei mam a'i brodyr a'i chwiorydd<br>• amgylcheddol: gormod o bobl yn y tŷ, diffyg preifatrwydd<br>• diwylliannol: iaith ac arferion gwahanol<br>• ffrindiau: ynysigrwydd, diffyg ffrindiau, ei chael hi'n anodd meithrin perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion<br>• economaidd-gymdeithasol: tlodi/cyfoeth mae'r teulu yn ei chael hi'n anodd yn ariannol<br>• gwahaniaethu: ffoadur yw Aisha ac mae ganddi iaith a diwylliant gwahanol i'w chyfoedion felly gallai wynebu achosion o wahaniaethu<br><br>**Effaith bosibl y ffactorau ar ddatblygiad cyfannol Aisha:**<br>• teulu: gallai cyfrifoldebau gofalu am ei mam a'i brodyr a'i chwiorydd achosi i Aisha deimlo'n ddig a dan bwysau oherwydd ei chyfrifoldebau. Efallai na fydd yn teimlo cymhelliant yn yr ysgol ac y bydd yn ymddwyn mewn ffordd negyddol oherwydd nad oes ganddi unrhyw amser rhydd i wneud gwaith cartref neu i wneud ffrindiau, felly mae hi'n teimlo nad oes diben ceisio llwyddo yn yr ysgol neu wneud ffrindiau. Gallai hyn effeithio ar ei dyfodol gan na fydd yn ennill ei chymwysterau er mwyn cael swydd neu fynd i'r brifysgol<br>• amgylcheddol: gormod o bobl yn y tŷ, diffyg preifatrwydd. Nid oes gan Aisha le tawel preifat i wneud ei gwaith cartref neu i adolygu a bydd hynny'n cael effaith negyddol ar ei pherfformiad yn yr ysgol gan achosi iddi fynd i helbul ag athrawon ac ymddieithrio o fyd addysg<br>• diwylliannol: mae gwahanol iaith ac arferion yn ei gwneud hi'n anodd iddi deimlo ei bod yn perthyn. Efallai bod Aisha yn teimlo'n ansicr ac yn bryderus am berthyn ac felly na fydd yn gwneud yr ymdrech i wneud ffrindiau, gan felly deimlo'n ynysig ac yn unig. Efallai nad yw'n deall yr iaith yn llawn a allai effeithio ar ei gallu i feithrin perthnasoedd ac i wneud yn dda yn yr ysgol<br>• ffrindiau - diffyg ffrindiau, ei chael hi'n anodd meithrin perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion ac wedi cael ei gwahanu o'i ffrindiau blaenorol gan orfod gwneud ffrindiau newydd, ymddygiad negyddol yn yr ysgol, diffyg teimlad o berthyn yn yr ysgol/cymuned | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • economaidd-gymdeithasol: tlodi/cyfoeth mae'r teulu yn ei chael hi'n anodd yn ariannol gan fod mam Aisha yn sâl ac yn methu gweithio a gan fod gan ei thad swydd â chyflog isel. Gall hyn achosi pryder am arian, ac efallai y bydd hi'n teimlo cywilydd gan na all ei theulu fforddio tripiau ysgol, gwisg ysgol ac ati a gallai hyn effeithio ar ei hiechyd os na all y teulu fforddio bwyd maethlon neu i gynhesu eu cartref.<br>• gwahaniaethu: ffoadur yw Aisha ac mae ganddi iaith a diwylliant gwahanol i'w chyfoedion felly gallai wynebu achosion o wahaniaethu a allai wneud iddi deimlo'n ynysig a chael effaith negyddol ar ei hyder a'i hunan-barch gan arwain at ddiffyg hunan-werth.<br><br>Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at bob maes datblygu.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| 4 | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3. | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o effaith bosibl y ffactorau cymdeithasegol ar ddatblygiad cyfannol Aisha<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin ag effaith y ffactorau hyn |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau cymdeithasegol sy'n effeithio ar Aisha<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o effaith bosibl y ffactorau cymdeithasegol ar ddatblygiad cyfannol Aisha<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin ag effaith y ffactorau hyn |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r ffactorau cymdeithasegol sy'n effeithio ar Aisha<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o gysyniadau perthnasol | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddehongliad o effaith bosibl y ffactorau cymdeithasegol ar ddatblygiad cyfannol Aisha<br>• ymdrech syml i ymdrin ag effaith y ffactorau hyn |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar Aisha<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o ddehongliad o effaith bosibl y ffactorau ar ddatblygiad Aisha<br>• ymdrech prin i ymdrin â'r ffactorau |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |



© WJEC CBAC Ltd.

## Adran B

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | *Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad cyfannol plant, sy'n cynnwys eu datblygiad corfforol, gwybyddol ac ieithyddol/iaith.* | | | | | |
| | (a) | *Amlinellwch sut mae chwarae gweithredol rheolaidd (regular active play) yn gallu helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd ac arfer gydol oes (lifelong habit) o wneud ymarfer corff bob dydd.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae gweithgaredd corfforol yn allweddol i fywyd iach ymhlith plant ifanc<br>• dylai gweithgareddau gynnwys llawer o sgiliau gwahanol<br>• mae amgylcheddau diogel, ysgogol yn bwysig, yn ogystal â modelau rôl cadarnhaol<br>• mae angen gweithgaredd corfforol rheolaidd, egnïol ar blant ifanc, fel chwarae gweithredol, er mwyn datblygu a thyfu'n iawn<br>• mae chwarae gweithredol yn cryfhau esgyrn, cyhyrau a'r ymennydd ac yn creu cysylltiadau rhwng pob un ohonynt<br>• mae ffordd gorfforol weithgar o fyw yn hanfodol o ran iechyd gydol oes a llesiant corfforol ac emosiynol<br>• er mwyn datblygu arferion da, dylai plant fod wneud gweithgaredd corfforol bob dydd<br>• gall chwarae gweithredol rheolaidd helpu i ddatblygu sgiliau i atal gordewdra (os na fydd plant yn datblygu arferion gweithgaredd corfforol da pan fyddant yn ifanc, mae mwy o risg y byddant dros bwysau neu'n ordew yn ddiweddarach mewn bywyd)<br>• mae chwarae gweithredol yn helpu plant i ddatblygu:<br>  o sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol<br>  o dealltwriaeth o reolau cymdeithasol<br>  o cyfeillgarwch<br>  o ymdeimlad o 'roi a chymryd'<br>  o amynedd a dyfalbarhad<br>  o dealltwriaeth o eraill<br>  o gwaith tîm ac ymdeimlad o berthyn<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae chwarae gweithredol rheolaidd yn gallu helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd ac arfer gydol oes o wneud ymarfer corff bob dydd<br>• dealltwriaeth hyderus o bwysigrwydd chwarae gweithredol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae chwarae gweithredol rheolaidd yn gallu helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd ac arfer gydol oes o wneud ymarfer corff bob dydd<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o bwysigrwydd chwarae gweithredol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae chwarae gweithredol rheolaidd yn gallu helpu plant i ddatblygu sgiliau bywyd a/neu arfer gydol oes o wneud ymarfer corff bob dydd<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae gweithredol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |


© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Aseswch sut mae chwarae anstrwythuredig (unstructured play) yn hybu datblygiad deallusol plentyn.* | | | 6 | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae chwarae anstrwythuredig yn fyrfyfyr ac yn cael ei arwain gan y plentyn. Mae chwarae anstrwythuredig yn rhoi rhyddid i blant archwilio, creu, arbrofi a darganfod pethau newydd yn y byd o'u cwmpas. Mae'n cefnogi eu chwilfrydedd ac yn eu helpu i wneud synnwyr o'u hamgylchoedd. Dim ond os bydd angen y bydd oedolion yn ymyrryd, a hynny mewn ffordd sensitif.<br><br>Mae chwarae anstrwythuredig yn hyrwyddo datblygiad deallusol plentyn:<br>• bydd plant yn dod yn fwy creadigol ac yn datblygu eu sgiliau meddwl yn greadigol, byddant yn dechrau defnyddio eu dychymyg i greu eu gemau eu hunain ac i greu straeon, gan ddefnyddio eu dychymyg<br>• gan ddatblygu sgiliau datrys problemau, er enghraifft, eu gemau eu hunain a chyfleoedd chwarae anstrwythuredig, bydd plant yn wynebu heriau fel pwy ddylai gymryd y tro cyntaf, yn dechrau sefydlu rheolau ac yn gweithio drwy broblemau cyffredin<br>• mae datrys problemau yn sgìl allweddol sy'n helpu i ddatblygu meddwl beirniadol ac i wella datblygiad gwybyddol mewn plant<br>• mae chwarae anstrwythuredig yn hyrwyddo gwaith tîm a chyfathrebu. Bydd chwarae plant yn datblygu senarios lle bydd plant yn dysgu sut i ofyn cwestiynau, gwrando a rhannu eu profiadau a gwneud ffrindiau gyda phlant eraill<br>• datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a geirfa<br>• mewn gweithgareddau strwythuredig, bydd plentyn yn dod i gysylltiad â sgiliau a phrosesau a fydd yn ei helpu i ddatblygu. Wrth chwarae mewn ffordd anstrwythuredig, bydd plant yn meistroli'r sgiliau hynny ac yn gwella eu datblygiad ymhellach<br>• mae'n meithrin gwydnwch gan fod cyfleoedd chwarae anstrwythuredig yn rhoi lle iddynt brofi'r teimlad hwn mewn amgylchedd diogel, llawn cysur. Mae adegau pan na fydd pethau'n gweithio yn galluogi plentyn i ddatblygu gwydnwch ac yn hyrwyddo dyfalbarhad a sgiliau datrys problemau<br>• mae plant yn dysgu sut i negodi er mwyn cael yr hyn y maent ei eisiau, yn cyfaddawdu, ac yn datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau a fydd | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yn eu helpu wrth chwarae mewn ffordd anstrwythuredig. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig gan eu bod hefyd yn meithrin sgiliau rhesymu gwybyddol er mwyn helpu plant i ddatblygu ymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill<br>• mae chwarae anstrwythuredig yn hyrwyddo dychymyg, gan fod chwarae anstrwythuredig yn gwella dyfeisgarwch, dychymyg<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Asesiad da iawn sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am y ffordd y mae chwarae anstrwythuredig yn hybu datblygiad deallusol plentyn<br>• ymdrech hyderus i ymdrin â'r cysyniad o chwarae anstrwythuredig |
| 2 | **3-4 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am y ffordd y mae chwarae anstrwythuredig yn hybu datblygiad deallusol plentyn<br>• ymdrech syml i ymdrin â'r cysyniad o chwarae anstrwythuredig |
| 1 | **1-2 farc**<br>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o farnau am y ffordd y mae chwarae anstrwythuredig yn hybu datblygiad deallusol plentyn<br>• rhywfaint o ymdrech i ymdrin â'r cysyniad o chwarae anstrwythuredig |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |


© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Esboniwch pa mor bwysig yw ymlyniad (attachment) i ddatblygiad plant o adeg geni hyd at 3 oed.* | | 8 | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>• mae ymlyniad â gofalwr sy'n oedolyn yn hollbwysig i bob baban o adeg geni gan ei fod yn dibynnu ar ei ofalwr i ddiwallu ei holl anghenion<br>• mae'r math o ymlyniad mae plentyn yn ei ffurfio'n gallu effeithio ar ei ddatblygiad drwy gydol ei blentyndod ac i mewn i'w fywyd fel oedolyn<br>• mae ymlyniad yn rhan o angen pob baban i oroesi gan nad yw'n gallu gofalu amdano'i hun ac, er bod gan rai babanod ymlyniadau mwy cadarn nag eraill, mae pob baban yn ffurfio ymlyniad â gofalwr. Mae'r ymlyniad hwn yn gysylltiedig â'r fam gan fwyaf ond gall hefyd fod yn gysylltiedig â'r tad, nain/mam-gu neu daid/dad-cu neu ofalwr<br>• credir bod ymlyniad yn datblygu fesul cam ac mae babanod yn ffurfio ymlyniad penodol i un person erbyn 7-9 mis oed ond erbyn 10 mis oed maent yn ffurfio ymlyniadau â nifer o bobl<br>• mae plant yn ffurfio ymlyniad â'r person sy'n ymateb i'w hanghenion - yn hytrach na'r person sy'n treulio'r cyfnod mwyaf o amser gyda nhw<br>• Damcaniaethwyr oedd Bowlby, Rutter a astudiodd ymlyniad<br>• mae pedwar prif ddosbarth ymlyniad: sicr, pryderus/osgoi, gwrthwynebol, anhrefnus<br>• mae ymlyniad yn helpu plant i ddatblygu annibyniaeth gan eu bod yn gallu mynd allan i archwilio'r byd o safle diogel<br>• mae ymlyniad nid yn unig yn dylanwadu ar sut y bydd plant yn rhyngweithio ag eraill ond sut maen nhw'n teimlo amdanyn nhw eu hunain, gan gynnwys eu hymdeimlad o hunan a'u perthynas â nhw eu hunain ac eraill<br>• mae ymlyniad yn dylanwadu ar bob agwedd ar ddatblygiad plant sy'n effeithio ar eu hunan hyder a'u hyder mewn pobl eraill ac ar eu holl ryngweithio cymdeithasol gan gynnwys rhyngweithio yn yr ysgol feithrin, yn yr ysgol gyda ffrindiau a theulu<br>• mae gan blant sydd wedi ffurfio ymlyniad sicr well sgiliau cyfathrebu cynnar gan eu bod yn gallu rhyngweithio ac ymgysylltu'n well â'u gofalwr sy'n hyrwyddo hunanhyder. Maent yn fwy tebygol o ffurfio ymlyniadau cryf mewn oedolaeth. Maent yn fwy hyderus yn yr ysgol ac mae ganddynt well perthnasoedd ag athrawon, ymarferwyr a chyfoedion. Maent yn perfformio'n well yn yr ysgol ac yn gallu cydweithredu a gweithio fel tîm yn well; maent yn llai tueddol hefyd o gael | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | problemau ymddygiadol, a phroblemau o ran eu perthnasoedd ag eraill<br><br>Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr hefyd yn ystyried beth sy'n digwydd pan na fydd plentyn yn ffurfio ymlyniad:<br>• nid yw pob plentyn yn cael cyfle i ffurfio'r un ymlyniad ag eraill e.e., plant sy'n derbyn gofal, neu blant sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni<br>• Yn aml, gall ymlyniad ansicr gael effaith negyddol ar ddatblygiad plant, lle gall plant ei chael hi'n anodd ffurfio perthnasoedd llwyddiannus a gall hyn barhau i mewn i oedolaeth. Yn aml, mae'r plant hyn yn arddangos problemau ymddygiad, gan fynd i'w cragen, ymddwyn mewn ffordd ymlynol a chael stranciau. Yn aml mae ganddynt sgiliau cymdeithasol gwael ac maent yn llai gwydn na phlant eraill. Mae'r plant hyn yn aml yn ei chael hi'n anodd rheoli eu hemosiynau a gallant fod yn ymosodol neu ddangos symptomau iselder neu orbryder o oedran ifanc. Maent hefyd yn aml yn dioddef hunan-barch isel a all effeithio ymhellach ar eu cymdeithasoli ac achosi anawsterau pellach wrth wneud ffrindiau a meithrin perthnasoedd.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd ymlyniad i ddatblygiad plant o adeg geni hyd at 3 oed.<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cysyniad o ymlyniad |
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o bwysigrwydd ymlyniad i ddatblygiad plant o adeg geni hyd at 3 oed<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r cysyniad o ymlyniad |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd ymlyniad i ddatblygiad plant o adeg geni hyd at 3 oed<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniad o ymlyniad |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o bwysigrwydd ymlyniad i ddatblygiad plant o adeg geni hyd at 3 oed<br>• dealltwriaeth brin o'r cysyniad o ymlyniad |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | | *Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar chwarae.* | | | | |
| | (a) | *Esboniwch sut mae damcaniaeth Piaget yn helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu drwy chwarae.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>• mae'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru sy'n hyrwyddo dysgu plant drwy chwarae a dysgu drwy brofiad yn seiliedig ar ddamcaniaethau Piaget. mae damcaniaethau Piaget yn rhoi pwyslais ar ddysgu gweithredol yn hytrach na dysgu goddefol, drwy archwilio'r byd a dysgu drwy ddarganfod sy'n agweddau allweddol ar y Cyfnod Sylfaen<br>• roedd y model ar gyfer damcaniaeth chwarae Piaget yn seiliedig ar ei arbrofion a'i arsylwadau o blant yn chwarae. Roedd yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng chwarae corfforol a chwarae symbolaidd, ac o'r farn bod chwarae yn cynnig amgylchedd hamddenol lle roedd dysgu'n digwydd yn haws<br>• Awgrymodd damcaniaeth chwarae Piaget fod cysylltiad agos iawn rhwng chwarae a datblygiad deallusol plant. Wrth i blant dyfu a datblygu, dylai eu hamgylchedd chwarae wneud hynny hefyd<br>• mae damcaniaeth Piaget yn seiliedig ar sut mae plant yn dysgu drwy chwarae a manteision dysgu drwy chwarae. Mae ei ddamcaniaeth hefyd yn darparu sylfaen glir ar gyfer addysg plant. Mae'n galluogi gweithwyr proffesiynol i feithrin gwybodaeth am sut y dylent weithio gyda phlant a sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd cywir<br>• Roedd gwaith Piaget yn seiliedig ar y cysyniad bod pedwar cam datblygiadol. Roedd ei ddamcaniaeth pedwar cyfnod ar gyfer datblygiad plant yn cael ei ystyried fel ysgol roedd plant yn ei dringo wrth iddynt gynyddu eu gwybodaeth am y byd o'u cwmpas yn raddol<br>• Mae Piaget yn awgrymu y bydd pob plentyn yn mynd drwy'r cyfnodau hyn yn y drefn hon ond y byddant yn gwneud hynny ar eu cyflymder eu hunain. Efallai y bydd rhai plant yn cymryd mwy o amser i symud i'r cyfnod nesaf nag eraill, ac mae hyn i'w ddisgwyl<br>• Cyfnod Synhwyraidd-weithredol (0-2 oed) - mae babanod a phlant bach yn byw yn y presennol ac yn profi'r byd drwy archwilio gan ddefnyddio eu pum synnwyr. Mae'r cyfnod hwn yn natblygiad plentyn yn seiliedig ar y ffaith nad yw plentyn yn gwybod bod gwrthrych yn dal i fodoli pan na fydd yn gallu ei weld<br>• Cyfnod Cynweithredol (2-7 oed) - dim ond o'u safbwynt eu hunain y bydd plant ifanc yn edrych ar y byd. Gallant feddwl am bethau nad ydynt o'u | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | blaenau drwy luniau neu eiriau, ond nid ydynt yn fedrus iawn wrth ddatrys problemau eto<br>• Cyfnod Gweithredu Diriaethol (7-11 oed) – Mae plant yn dod yn fwy empathig ac yn gallu meddwl am y byd o safbwynt pobl eraill. Maent yn datblygu sgiliau rhesymeg a gallant weithio pethau allan yn eu pennau yn hytrach na defnyddio cynrychioliadau ffisegol<br>• Cyfnod Gweithredol Ffurfiol (12+ oed) - gall plant hŷn nawr siarad mwy am syniadau haniaethol a ffurfio dadleuon. Mae eu sgiliau rhesymeg yn fwy datblygedig a gall plant nawr feddwl yn fwy annibynnol a chynnig eu syniadau eu hunain<br>• Roedd gan Piaget ddiddordeb yn y ffordd roedd plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o gysyniadau megis amser, rhifau a meintiau. Roedd Piaget o'r farn nad yw gwybodaeth yn datblygu allan o brofiadau yn unig, ond bod gennym ni flociau adeiladu mewnol o'r enw **sgemâu** sy'n ein helpu i drefnu gwybodaeth a gwneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. **Addasiad:** Roedd Piaget o'r farn fod datblygiad gwybyddol yn broses lle rydym yn addasu i'r byd drwy gymathu, cydweddu a chydbwyso<br>• Mae damcaniaeth Piaget o ddatblygiad gwybyddol yn awgrymu bod plant yn y blynyddoedd cynnar yn dysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol wrth iddynt archwilio'r byd o'u cwmpas a defnyddio pob un o'u synhwyrau. Roedd hyn yn cefnogi poblogrwydd dysgu drwy ddarganfod a chwarae synhwyraidd. Mae'r rhain yn galluogi plant i archwilio eu hamgylcheddau ac yn rhoi syniadau ac awgrymiadau i ymarferwyr ar gyfer gweithgareddau sy'n ysgogi'r synhwyrau er mwyn helpu i sicrhau bod plant yn parhau i ddangos diddordeb, i gymryd rhan ac i ddysgu<br>• mae athrawon yn pwysleisio gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr i hyrwyddo dysgu lle mae plant yn dysgu drwy ddarganfod gweithredol yn hytrach na chyfarwyddyd uniongyrchol a lle ceir ffocws ar y broses ddysgu yn hytrach na'r cynnyrch terfynol<br>• cydnabu Piaget hefyd bwysigrwydd arsylwi ar blant er mwyn asesu eu lefel datblygiadol er mwyn cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n briodol o ran oedran a chyfnod, ac mae hyn yn rhan bwysig o gynllunio sesiynau mewn lleoliadau. Caiff plant lawer o gyfleoedd i ddysgu a datblygu a chânt gyfle i ddefnyddio unrhyw adnoddau a deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y dasg. Mae'r holl adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt a rhoddir gwaith iddynt sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae damcaniaeth Piaget yn helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu drwy chwarae<br>• dealltwriaeth hyderus o ddamcaniaeth Piaget. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae damcaniaeth Piaget yn helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu drwy chwarae<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ddamcaniaeth Piaget. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae damcaniaeth Piaget yn helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu drwy chwarae<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o ddamcaniaeth Piaget. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |


© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch gyfnodau chwarae (stages of play) plant o adeg geni hyd at 5 oed.* | 8 | | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>• mae chwe chyfnod chwarae yn ystod plentyndod cynnar. Mae pob un o'r cyfnodau chwarae yn cynnwys archwilio, darganfod gan ddefnyddio eu dychymyg a bod yn greadigol. Mae chwarae plant yn newid yn ôl oedran wrth iddynt dyfu a datblygu eu sgiliau<br>• Chwarae segur (adeg geni hyd at 3 mis) gwneud llawer o symudiadau â'u breichiau, coesau, dwylo, traed ac ati. Maent yn dysgu ac yn darganfod sut mae eu corff yn symud<br>• chwarae unigol (adeg geni hyd at 2 oed) pan fydd yn well gan blant chwarae ar eu pen eu hunain gan eu bod nhw'n cymryd y cyfle i archwilio eu hamgylchedd. Gall hyn amrywio o sŵn eu llais i deimlo rhannau o'u corff. Mae hefyd yn arferol i blant hŷn fod eisiau chwarae ar eu pennau eu hunain. Gallant dreulio cyfnodau hir yn canolbwyntio ar weithgaredd penodol<br>• ymddygiad gwyliwr/edrychwr (2 oed) bydd plentyn yn dechrau gwylio plant eraill yn chwarae, ond ni fydd yn chwarae gyda nhw. Mae gwylio yn helpu plentyn i ddatblygu hyder ac i ddysgu sut mae plant yn chwarae gyda'i gilydd. Wrth chwarae fel edrychwr, drwy arsylwi, bydd plentyn yn meithrin ei sgiliau ei hun. Gall plant sy'n chwarae fel edrychwr wneud sylwadau ar y gweithgareddau y maent yn arsylwi arnynt. Maent yn dysgu am sut mae plant yn rhyngweithio er mwyn paratoi ar gyfer cymryd rhan yn y pen draw mewn gweithgareddau chwarae fel grŵp o'r fath<br>• chwarae cyfochrog (2+ oed) mae'n well gan blant chwarae ochr yn ochr â phlant eraill, ond nid ydynt yn dueddol o ryngweithio â nhw. Efallai y byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg neu weithiau rai sy'n hollol wahanol, ond maent yn hoffi bod o gwmpas plant eraill tua'r un oed<br>• chwarae cysylltiadol (3-4 oed) bydd plentyn yn dechrau rhyngweithio ag eraill wrth chwarae, ond does dim llawer o ryngweithio yn y cyfnod hwn<br>• chwarae cydweithredol (4+ oed) bydd plentyn yn chwarae gydag eraill ac yn dangos diddordeb yn y gweithgaredd ac yn y plant eraill sy'n chwarae. Bydd yn trafod agweddau ar ei chwarae, yn gwneud rheolau, yn cymryd | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | tro ac yn rhannu, gan ddangos y sgiliau cymdeithasol y bydd eu hangen arno drwy gydol ei fywyd. Mae hyn fel arfer yn digwydd rhwng pedair a phum mlwydd oed; dyma'r prif fath o chwarae a welir ymhlith plant o'r oedran hwn, er y bydd y cyfnodau chwarae cynharach i'w gweld o hyd gan fod plant yn defnyddio pob math o chwarae i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o chwe chyfnod chwarae plant o adeg geni hyd at 5 oed<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cyfnodau chwarae |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r rhan fwyaf o gyfnodau chwarae plant o adeg geni hyd at 5 oed<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r cyfnodau chwarae |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rai o gyfnodau chwarae plant o adeg geni hyd at 5 oed<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cyfnodau chwarae |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o gyfnodau chwarae plant<br>• fawr ddim dealltwriaeth o'r cyfnodau chwarae |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Gan gyfeirio at ddamcaniaeth Maslow, ystyriwch sut mae ymarferwyr yn bodloni anghenion cyfannol plant ifanc.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Damcaniaeth Maslow<br>• mae damcaniaeth Maslow yn seiliedig ar yr angen i fodau dynol ddod o hyd i gyflwr boddhad o'r enw hunanwireddu, lle mae person yn cyflawni hyd lefel uchaf ei allu<br>• damcaniaeth enwocaf Maslow yw'r hierarchaeth anghenion, mae'n dadlau bod gan bob bod dynol yr un anghenion, a bod yn rhaid eu bodloni mewn trefn benodol<br>• mae'n cyflwyno'r anghenion hyn ar ffurf pyramid, gan roi anghenion corfforol mwyaf sylfaenol yr unigolyn ar y gwaelod a hunanwireddu ar y brig. Rhaid cwblhau pob cam ar y pyramid cyn symud i'r cam nesaf a'r anghenion lefel uwch<br><br>Mae ymarferwyr yn diwallu anghenion cyfannol plant ifanc:<br>• mae angen i ymarferwyr geisio sicrhau bod plant yn cael eu bwydo'n dda, yn cael cwsg da, yn teimlo'n ddiogel yn y cartref a'u bod yn hunanhyderus. Mae hierarchaeth anghenion Maslow yn helpu ymarferwyr i ddeall sut i ddiwallu anghenion penodol plant<br>• rhaid i ymarferwyr geisio sicrhau bod yn rhaid diwallu anghenion biolegol a ffisiolegol yn gyntaf. Pan fo plant yn llwglyd neu wedi blino, maen nhw'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio. Mae'n bwysig diwallu'r anghenion hyn cyn eu hannog i chwarae, gwrando ar stori, cwblhau gwaith ac ati.<br>• Pan fo'u hanghenion sylfaenol wedi'u bodloni, gall plant fod yn fwy ymwybodol o bryder/gofid gwahanu neu bryder o weithgareddau newydd sy'n ymwneud â'r cam diogelwch a diogeledd. Gellir diwallu'r angen i berthyn mewn lleoliadau oherwydd bydd plant yn gallu gwneud ffrindiau neu greu ymlyniadau â pherson allweddol<br>• mae'r pedwerydd cam, parch, yn ymwneud ag angen plant i feithrin annibyniaeth, hunanbarch neu gyflawniadau. Mae plant yn elwa ar gael eu canmol gan ymarferwyr am eu gwaith neu am allu cyflawni rhywbeth ar eu pen eu hunain, fel clymu careiau eu hesgidiau neu fwyta eu byrbryd | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • hunanwireddu yw gwireddu potensial personol. Mae hyn yn datblygu dros amser fel ymdeimlad o fodlonrwydd â'u hunain a'r sefyllfa<br>• mae holl anghenion datblygiadol plant wedi'u cynnwys yn namcaniaeth Maslow – datblygiad corfforol, datblygiad emosiynol, datblygiad cymdeithasol, datblygiad gwybyddol a datblygiad iaith<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos:<br>• dealltwriaeth drylwyr sy'n ystyried sut mae ymarferwyr yn defnyddio damcaniaeth Maslow i ddiwallu anghenion cyfannol plant ifanc<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â damcaniaeth Maslow |
| 3 | **5-6 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan sy'n ystyried sut mae ymarferwyr yn defnyddio damcaniaeth Maslow i ddiwallu anghenion cyfannol plant ifanc<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin â damcaniaeth Maslow |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth sy'n dangos rhywfaint o ystyriaeth o sut mae ymarferwyr yn defnyddio damcaniaeth Maslow i ddiwallu anghenion cyfannol plant ifanc<br>• ymdrech syml i ymdrin â damcaniaeth Maslow |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dealltwriaeth brin o sut y gall defnyddio damcaniaeth Maslow ddiwallu anghenion plant ifanc<br>• ymdrech prin i ymdrin â damcaniaeth Maslow |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | *Mae Jac yn 5 oed. Yn ddiweddar, mae wedi dechrau dangos ymddygiad heriol yn yr ysgol, fel taro (hitting), cnoi/brathu a dydy e ddim yn fodlon rhannu neu gymryd tro (take turns) gydag eraill.*<br><br>*Mae Jac wedi symud tŷ ac ysgol yn ddiweddar, ac mae ei rieni'n awgrymu efallai mai dyma'r rheswm dros y newid yn ei ymddygiad. Mae'r ysgol a rhieni Jac yn awyddus i'w gefnogi i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. Mae athro Jac yn awgrymu defnyddio'r dull addasu ymddygiad (behaviour modification approach), fel siartiau gwobrwyo.* | | | | |
| | *Disgrifiwch y strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad sy'n ceisio datblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plant, a gwerthuswch effaith bosibl y strategaethau hyn ar Jac.* | 8 | | 10 | 18 |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Sut mae'r dull addasu ymddygiad yn anelu at ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plant:<br>• ymyriad seicotherapiwtig yw'r dull addasu ymddygiad a ddefnyddir gan fwyaf i ddileu neu leihau ymddygiad dieisiau mewn plant<br>• mae'r dull addasu ymddygiad wedi datblygu o ddamcaniaeth cyflyru gweithredol Skinner. Yn gyffredinol, mae hyn yn ymwneud ag atgyfnerthu ymddygiad dymunol ac anwybyddu neu gosbi ymddygiad dieisiau<br>• Ymarferwyr sy'n modelu ymddygiad cadarnhaol: Mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura hefyd yn dangos y ffyrdd ymarferol y gellir addasu ymddygiad plant er mwyn rhoi'r canlyniadau gorau posibl iddynt<br>• mae atgyfnerthu cadarnhaol yn ddull addasu ymddygiad lle rhoddir ysgogiad bleserus neu ddymunol i blant ar ôl ymddygiad da. Mae plant sy'n cael atgyfnerthiad cadarnhaol am ymddygiad da yn cael eu cymell fwy i barhau i ymddwyn yn yr un ffordd<br>• mae defnyddio'r dull addasu ymddygiad yn caniatáu i'r plentyn deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gan greu perthnasoedd cadarnhaol<br>• gall y rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant hyrwyddo patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc drwy fodelu ymddygiad da, gosod ffiniau, cysondeb, atgyfnerthu a chreu amgylchedd ar gyfer ymddygiad da<br>• er mwyn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, mae polisi ymddygiad yn cyfiawnhau disgwyliadau, yn cynnwys mewnbwn plant, yn mynegi rheolau mewn ffordd gadarnhaol, yn cynnwys rheolau o ran ymddygiad grŵp ac yn hyrwyddo strategaethau gwydnwch.<br>• mae siartiau gwobrwyo yn rhoi tocynnau fel sticeri, sêr a thystysgrifau yn gyfnewid am ymddygiadau penodol neu ddymunol, y gellir eu cyfnewid yn ddiweddarach am wobrau fel breintiau neu hoff weithgareddau. Maent yn gwobrwyo ymddygiadau cadarnhaol fel cymryd cyfrifoldeb, bod yn garedig i blentyn arall neu rannu | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • mae mathau eraill o strategaethau addasu ymddygiad yn cynnwys:<br>o rheoli’r amgylchedd<br>o bod yn gyson<br>o person allweddol<br>o creu cardiau ymddygiad neu drefn<br>o cynnal arsylwadau parhaus a dirnad beth mae'r plentyn yn ei ddweud go iawn drwy ei ymddygiad heriol<br>o siartiau Rhagflaenwyr, Ymddygiadau a Chanlyniadau (siartiau ABC yn Saesneg (Antecedents, Behaviours, Consequences))<br><br>Effaith bosibl y strategaethau hyn ar Jac:<br>• gallai defnyddio dulliau addasiad ymddygiad arwain at welliannau sylweddol yn ei ymddygiad<br>• bydd yn meithrin gwell perthnasoedd ag athrawon<br>• bydd yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi mwy yn yr ysgol ac yn cael ymdeimlad gwell o berthyn drwy gael ei ganmol a'i wobrwyo<br>• bydd Jac yn teimlo'n fwy hyderus yn y lleoliad ac yn meithrin gwell perthnasoedd â phlant eraill<br>• wrth i ymddygiad Jac wella, bydd plant eraill yn fwy tebygol o fod eisiau chwarae ag ef a bydd yn teimlo'n llai ynysig<br>• bydd Jac yn llai tebygol o gael ei fwlio gan blant eraill<br>• bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn fwy cadarnhaol, a fydd o fudd i Jac a'r plant eraill<br>• bydd y dull addasu ymddygiad yn datblygu cymeriad Jac gan fod plant ifanc sy'n cael eu hannog i ymddwyn yn briodol drwy'r dull addasu ymddygiad yn dueddol o ddangos canlyniadau mwy cadarnhaol o ran datblygu cymeriad<br>• bydd defnyddio dull cadarnhaol yn cymell Jac i ragori ar ddisgwyliadau. Bydd am gael y ganmoliaeth a'r gwobrau felly bydd yn ymdrechu'n galed i gyflawni nodau ymddygiadol<br>• bydd plant sy'n cael eu cymell gan fod ofn ganddynt o gael eu cosbi yn gwneud cyn lleied o ymdrech â phosibl; byddant ond yn gwneud cyn lleied â phosibl er mwyn osgoi cael eu cosbi<br>• Bydd Jac yn deall bod ymddygiad da yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol fel gwobrau neu gydnabyddiaeth. Mae hyn yn dysgu gwerth cyfrifoldeb personol a hunanddisgyblaeth iddo<br>• bydd defnyddio dull cadarnhaol yn gwneud i Jac deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a bod gofal yn cael ei ddangos tuag ato<br>• mae'r dull addasu ymddygiad yn helpu i ddatblygu hunan-barch plentyn. Os yw Jac yn hyderus a bod ganddo hunan-barch iach mae'n fwy tebygol o ddod o hyd i lwyddiant yn ddiweddarach mewn bywyd<br>• drwy ddefnyddio'r dull addasu ymddygiad, bydd Jac yn teimlo'n dda amdano'i hun pan fydd wedi gwneud | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | rhywbeth yn iawn. Yn lle teimlo'n ofnadwy a chanolbwyntio ar y pethau na wnaeth yn iawn<br>• bydd Jac yn sylweddoli ei fod yn teimlo'n well pan fo'n ymddwyn yn dda a bydd yn ceisio ymddwyn yn dda drwy'r amser<br>• bydd y dull addasu ymddygiad yn addysgu Jac i deimlo'n dda am ei gyflawniadau a'i lwyddiannau – waeth pa mor fach ydyn nhw<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br>• dealltwriaeth hyderus o'r dull addasu ymddygiad. | **9-10 marc**<br>Gwerthusiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barnau craff a gwybodus am effaith bosibl y strategaethau ar Jac.<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r dull addasu ymddygiad | **6-8 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• barn resymegol am effaith bosibl y strategaethau ar Jac<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin â'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r dull addasu ymddygiad | **3-5 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am effaith bosibl y strategaethau ar Jac<br>• ymdrech syml i ymdrin â'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br>• fawr ddim dealltwriaeth o'r dull addasu ymddygiad. | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o effaith bosibl y strategaethau<br>• fawr ddim ymdrech i ymdrin â'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |



© WJEC CBAC Ltd.

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

**Uned 3**

| Cwestiwn | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | 2.3.1 | 2.3.2 | 2.3.3 | | | | | |
| **1** | (a) | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 6 | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| **2** | (a) | 8 | | | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| | (b) | | | 14 | (a) | **14** | 6 | 0 | 8 |
| Adran A | | 20 | 0 | 20 | | **40** | **18** | **6** | **16** |
| 3 | (a) | | 6 | | (b) | 6 | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | (ch) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| | (c) | 8 | | | (a) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **4** | (a) | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (b) | | 8 | | (c) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| | (c) | 8 | | | (b) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5** | | | | 18 | (b) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | 22 | 20 | 18 | | **60** | **22** | **14** | **24** |
| Cyfanswm marciau | | **42** | **20** | **38** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



© WJEC CBAC Ltd.